



## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol Gwynedd - LEADER.

10.07.2019

Cell B, Blaenau Ffestiniog

### Yn Bresennol:

<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Fenter:</b>		
Dafydd Watts	(DW)	Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Gwenan Williams (Cadeirydd)	(GW)	Sector Breifat
Geraint Strello		Technoleg
Alun Wyn Evans	(AE)	NFU/FUW
Gwion Llwyd	(GLI)	Dioni
Ceri Cunnington	(CC)	Antur Stiniog
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Gwirfoddol:</b>		
Carys Williams	(CW)	Mantell Gwynedd
David Ingham	(DI)	DIY Industries Cyf
<b>Cynrychiolaeth o'r Sector Cyhoeddus:</b>		
OG Thomas	(OG)	Un Llais Cymru
<b>Cynrychiolaeth o Fenter Môn/ Arloesi Gwyendd Wledig:</b>		
Aaron Warren	(AW)	
Rhian Hughes	(RH)	
Rhys Gwilym	(RG)	
Carwyn ap Myrddin	(CM)	
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Zoe Pritchard	(ZP)	





## Cofnodion Grŵp Gweithredu Lleol

Pwynt	Manylion	Gweithred
<b>Cyfarfod Grŵp Gweithredu Lleol</b>		
1.	Cafodd croeso ei ymestyn i bawb i'r cyfarfod gan Gwenan Williams, cadeirydd y LAG i'r flwyddyn 2019.	
2.	Derbyniwyd ymddiheuriadau gan 9 aelod trwy law RG. <ul style="list-style-type: none"> <li>• Einir Young (Prifysgol Bangor)</li> <li>• Craig ab Iago (Dyffryn Nantlle 2020)</li> <li>• Sian Tomos (GISDA)</li> <li>• Arwel Jones (Partneriaeth Llŷn)</li> <li>• Anwen Davies (Cyngor Gwynedd)</li> <li>• Menna Jones (Antur Waunfawr)</li> <li>• Cyngh. Gareth Thomas</li> <li>• Alex Saul (Greenacres)</li> <li>• Ian Nellist (FSB)</li> </ul>	
3.	<b><u>Datganiadau o Ddiddordeb</u></b> Nid oedd yno ddatganiadau o ddiddordeb yn y cyfarfod hwn.	
4.	<b><u>Cofnodion Cyfarfod 01/05/2019</u></b> Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion. Roedd GS a AE yn eilio'r cymeradwyaeth.	
5.	<b><u>Diweddariad prosiectau Bro Ffestiniog</u></b> Rhoddodd CC ddiweddariad i'r aelodau am rhai o'r prosiectau sydd yn digwydd ym Mro Ffestiniog sydd wedi cael eu ariannu gan AGW. <b>Egni Bro</b> <b>(DW a CC yn datgan diddordeb ar y prosiect yma).</b> Eglurodd CC fod hwn yn brosiect yr oedd yn ceisio creu cymunedau cynaliadwy yn ardal Bro Ffestiniog drwy adnabod cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy yn lleol a'r cyfleon i werthu yr ynni i gartrefi, busnesau a diwydiannau er budd i'r gymuned. Yn ddiweddar cafodd adroddiad dichonoldeb ei gyflwyno gan Egnida yr oedd yn asesu'r potensial o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ym Mro Ffestiniog. Yn dilyn yr astudiaethau a gefnogwyd gan AGW a Cwmni Bro, sefydlwyd Cwmni er Budd Cymdeithasol sef 'Ynni Cymunedol Twrog'. Mae aelodau cynghorau cymuned wedi dod ynghyd i ymateb i heriau'r dyfodol i ddatblygu a manteisio ar gyfleon yn y maes ynni adnewyddol. Y nod ydi sicrhau rheolaeth o asedau ynni lleol a pherchnogaeth cymunedol. <b>BROCast</b> Eglurodd CC mai pwrpas y prosiect hwn oedd i godi ymwybyddiaeth o beth sy'n digwydd yn ardal Bro Ffestiniog drwy ddefnyddio fideos ar	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>wefannau cymdeithasol. Un o amcanion y prosiect ydi i newid a datblygu y gymuned drwy annog trafodaethau ymysg trigolion yr ardal.</p> <p><b>Siop Zero</b> Mae'r Dref Werdd wedi derbyn arian gan Cronfa Peilota Gwynedd ar gyfer agor siop dim gwastraff ym Mlaenau Ffestiniog. Eglurodd CC fod y grwp wrthi yn chwilio am siop wag ar gyfer sefydlu'r siop ac yn chwilio am yr offer priodol ar gyfer ei weithredu'n llwyddiannus.</p>	
6.	<p><b>Diweddariad Cyllid</b> Rhoddodd ZP ddiweddariad i'r aelodau am sefyllfa cyllid AGW. Eglurodd fod £1,209,693.46 wedi cael ei ddyrannu gan y LAG i fyny at heddiw, ac os caiff y cais Maker Space ei gymeradwyo heddiw yno bydd y swm yno yn codi i £1,234,693.46. Eglurodd ZP fod yr arian yma ar gael i'w wario hyd at 2021 ond mae AGW wedi gwneud cais i gael estyniad o ddwy flynedd arall, fel fod ddim brys ormodol ar gyfer gwario yr arian yma.</p> <p><b>Diweddariad AGW</b> Eglurodd ZP fod gan AGW 26 o brosiectau byw ar hyn o bryd, a fod prosiectau Rachel wedi cael eu rhannu rhwng CM a RH ers iddi gychwyn ar gyfnod o famolaeth. Sicraodd ZP y bydd y tim yn cael mwy o amser i weithio ar brosiectau newydd ar gyfer eu cyflwyno i'r cyfarfod LAG mis Hydref. Cyflwynwyd rhaglen waith AGW ar gyfer Gorffennaf-Hydref 2019:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Cau prosiectau byw</li> <li>2. Derbyn gwerthusiad terfynol tymor canol AGW gan Wavehill</li> <li>3. Creu rhaglen waith ar sail awgrymiadau'r gwerthusiad</li> <li>4. Adolygu hen brosiectau – adnabod Cam 2</li> <li>5. Tynhau cynllun marchnata AGW</li> <li>6. Gweithredu ar flaenoriaethau'r LAG am y flwyddyn nesaf</li> </ol> <p><b>Gwerthusiad Wavehill</b> Atgoffodd ZP yr aelodau o beth gafodd ei drafod yn y cyfarfod gyda Endaf o gwmni Wavehill, sef y cwmni sy'n gyfrifol am y gwerthusiad o weithrediad y rhaglen LEADER yng Ngwynedd. Cyn y cyfarfod gwerthusiad, mi yrrwyd holiadur allan gan Wavehill i holl aelodau'r LAG ac i'r cyhoedd yn gofyn iddynt flaenoriaethu'r 10 prif amcan. Cafwyd 9 holiadur yn ôl, a'r canlyniad oedd mai'r ddau flaenoriaeth pwysicaf yw:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Creu cyfleoedd i fusnesau gwledig gydweithio i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.</li> </ol>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

	<p>2. Annog entrepreneuriaeth ymysg pobl ifanc a chryfhau cysylltiadau â busnesau lleol.</p> <p>Cafodd yr 10 her ei drafod am yr ailwaith yn y sesiwn gwerthuso ym Mhlas Tan y Bwlch, a daethpwyd i benderfyniad mai'r 2 flaenoriaeth i ganolbwyntio arno am y flwyddyn nesaf oedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfleoedd i fusnesau gwledig gydweithio i ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.</li> <li>• Datblygu gwell dealltwriaeth o'r agenda carbon a grymuso cymunedau i weithredu'r mentrau cyflenwad a galw am ynni.</li> </ul> <p>Byddai rhain yn cael eu hadolygu a newid ar ddiwedd y flwyddyn.</p> <p>Gofynnodd ZP os oedd yr aelodau yn hapus efo'r ddau flaenoriaeth yma, ac mi roedd yr aelodau i gyd yn cytuno y dylai cael pleidlais terfynol gan yr holl aelodau.</p> <p>Awgrymodd GLL i ni ganolbwyntio ar sectorau mae Gogledd Cymru yn gryf neu'n llwyddo ynddo yn barod fel y sector Twristiaeth.</p>	
7.	<p><b><u>Diweddariad Cronfa Peilota Gwynedd</u></b></p> <p>Eglurodd RG fod y gronfa wedi cael ei dargedu at grwpiau cymunedol yng Ngwynedd i'w galluogi i dreialu gweithgareddau newydd fydd yn cyfrannu at eu cynaliadwyedd hir dymor. Eglurodd fod 4 rownd o'r gronfa wedi bod ac allan o'r 4 rownd yma mae 19 prosiect. Mae 8 allan o'r 19 prosiect yma wedi cau.</p> <p>Rhoddodd esiampl o un prosiect sydd wedi cau yn ddiweddar sef Amgueddfa Forwrol Llŷn. Mi wnaeth y grwp yma dderbyn arian o'r gronfa ar gyfer comisiynu Cynllun Busnes i'r amgueddfa ac i gynnal sesiynau gweithgareddau bob yn ail dydd sadwrn yn ystod y gaeaf. Cafodd y cynllun busnes ei orffen yn ddiweddar a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i roi arweiniad i'r grwp ar sut i gynyddu incwm. Roedd y sesiynau yn llwyddiannus gyda nifer o bobl o bob oed yn gwneud y mwyaf o beth oedd yn cael ei gynnig. Mi wnaeth yr arian helpu'r amgueddfa fod yn fwy hunangynhaliol drwy ddenu mwy o bobl i'r amgueddfa yn ystod adegau tawelaf y flwyddyn.</p> <p>Rhoddodd engreiffitau o brosiectau eraill sydd wrthi yn cael eu gweithio arnynt e.e. Menter y Plu, Cyngor Tref Criccieth.</p>	
8.	<p><b><u>Diweddariad Prosiectau Cyfredol</u></b></p> <p><b>Gwerth yn y wlad</b> – Rhoddodd RH ddiweddariad ar y prosiect beicio ffordd yma ac eglurodd fod offer wedi cael ei archebu i 4 allan o'r 5</p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

<p>Ileoliad. Mae Bragdy Cwrw Llŷn wedi dangos diddordeb mewn bod yn rhan o'r cynllun. Dangosodd RR y poster a chafodd ei wneud gan y Cyngor er mwyn amlygu'r llwybrau beics yng Ngwynedd ac eglurodd fod digwyddiad yn mynd i cael ei gynnal mis Hydref.</p> <p>Dangosodd fideo yn hybu'r cynllun a chafodd ei greu gan Dan Haul Cyf.</p> <p><b>Strydoedd Unigryw</b> – Eglurodd CM fod yr ambarels wedi cael eu gosod yn Stryd y Plas yng Nghaernarfon ac eu bod wedi derbyn lot o sylw gan y wasg ac ar wefannau cymdeithasol (7,000+ o 'likes' ar Instagram Visit Wales). Bydd fideo yn cael ei greu yn ystod yr haf sy'n dangos bobl Caernarfon ac ymwelwyr yn rhoi eu barn am yr ambarels ac am y prosiect yn gyffredinol.</p> <p>Trafodwyd y siom o gael enw AGW ynghlwm o'r ymbarels allan yna, ac roedd camddealltwriaeth gan y cyhoedd bod y cynllun yn ymwneud â iechyd meddwl. Cadarnhawyd bod ymgyrch ymlaen dros wyliau'r haf I godi ymwybyddiaeth mai cynllun AGW oedd hwn, gan gynnwys poliau opiniwn o amgylch 4 stryd fawr yng Ngwynedd.</p> <p>Eglurodd CM fod grwp Tafarn yr Heliwr yn Nefyn yn cynnal digwyddiad 'Parti ar y Pafin' dydd Sadwrn yma. Bydd busnesau lleol yn cymeryd rhan ac bydd siopau gwag y stryd yn cael eu defnyddio ar gyfer amryw o weithgareddau.</p> <p>Mae grwp Criccieth hefyd wrthi yn gweithio ar eu prosiect nhw sef cerfluniau o fwysftilod ar y traeth sydd wedi cael eu ysbrydoli gan y gerdd 'Welsh Incident'.</p> <p><b>Co-op Caws (Uned Cynhyrchu Caws)</b> – (Rhoddodd DI ddatganiad o ddiddordeb am y cynllun hwn).</p> <p>Eglurodd CM fod hwn yn ymchwil sydd yn mynd i gael ei wneud i weld os oes yno alw am uned cynhyrchu caws yng Ngwynedd ac os oes cymuned o ddiddordeb yn bodoli. Cafodd digwyddiad ei gynnal ar 09/07/19 er mwyn trio denu cynhyrchwyr caws a rhai sydd â diddordeb mewn cychwyn er mwyn helpu gyda'r ymchwil. Roedd y mynychwyr yn gefnogol ac yn awgrymu i edrych ar gynhyrchu cynnyrch llefrith arall fel caws.</p> <p><b>Ceir Cymunedol Trydanol</b> – Eglurodd CM fod 4 cais wedi cael ei dderbyn yn dilyn y galwad agored ac allan o'r 4 yma dewiswyd y ceisiadau gan Abergynolwyn a Bethesda. Maent yn gobeithio bydd y ceir yn barod erbyn mis Hydref 2019.</p>	
---	--





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

9.	<b>Ceisiadau i'w cymeradwyo</b>	
9.1	<p><b><u>Gofod Gwneud (Maker Space)</u></b></p> <p>Eglurodd ZP fod hwn yn brosiect ar y cyd gyda cynllun Arfor Cyngor Gwynedd. Mae 'Maker space' yn ofod cydweithredol ar gyfer gwneud, dysgu, archwilio a rhannu yn defnyddio offer technolegol o bob math e.e. argraffwyr 3D, torwyr laser a sganwyr 3D. Mae'r prosiect hwn yn ceisio sefydlu 'Maker spaces' mewn 2 leoliad yng Ngwynedd, er y bydd rhywfaint o'r offer yn cael ei rannu. Bydd un o'r gofodau yn symudol a bydd yn cael ei sefydlu mewn siopau gwag am 6 mis, tra bydd yr ail yn cael ei sefydlu mewn parc busnes. Bydd pobl a busnesau yn cael mynediad i'r offer yma am ddim er mwyn treialu pethau newydd heb orfod gwario ar brynu yr offer technolegol. Mi fydd y prosiect hefyd yn darparu cymorth hwyluso i godi ymwybyddiaeth a datblygu cymuned o wneuthurwyr. Mi fydd y gofod yn cael ei sefydlu yn Porthmadog am y 6 mis cyntaf fel bod tîm AGW yn gallu ei reoli a datrys problemau yn gynt.</p> <p>Daeth Wyn Griffiths i'r cyfarfod er mwyn rhoi gwell syniad o pa offer fydd yn cael eu prynu ar gyfer y gofod. Eglurodd ei fod yn arfer rhedeg y Ffablab yn Pontio felly mae'n ymwybodol o pa offer fyddai fwyaf addas, ac oherwydd ei brofiad mae'n gwybod pa mor werthfawr yw'r cyfle yma i unigolion yr ardal. Mae'n galluogi pobl i arbrofi, dysgu sgiliau a chodi ymwybyddiaeth o'r dechnoleg yma. Dangosodd demo o Argraffydd 3D yn gweithio a'r gwahanol bethau sy'n gallu cael ei gynhyrchu.</p> <p>Eglurodd ZP fod AGW yn cyfrannu £25,000 at y prosiect a bydd Cyngor Gwynedd drwy arian Cynllun Arfor yn cyfrannu £75,000.</p> <p>Gofynnodd DI os ydym wedi gwneud unrhyw waith ymchwil ar y galw am y Gofod Gwneud. Eglurodd Wyn fod dros 700 o bobl wedi cael 'induction' yn Pontio Arloesi sy'n dangos fod yno gymuned o ddiddordeb ar gyfer y math yma o dechnoleg a fod ystod yn eu demograffeg hefyd.</p> <p>Awgrymodd CW fod hi'n syniad i drïo cynnwys y colegau yn y prosiect hwn, yn enwedig y myfyrwyr sy'n astudio Dylunio a Thechnoleg a Celf. Eglurodd DG y byddwn yn cynnal gweithdai gyda gwahanol themâu yn dibynnu ar eu maes e.e. ffermwyr, plymwyr ayyb.</p> <p>Gofynnodd OG pwy fydd yn rhedeg y prosiect ar ol i AGW ei beilota. Dywedodd ZP ein bod yn gobeithio y bydd y cymunedau yn meddianu'r prosiect ac yn adnabod y cyfle.</p> <p><b>Cymeradwyodd yr aelodau LAG y prosiect peilot ar gyfanswm o £25,000.</b></p>	





## Cofnodion Grwp Gweithredu Lleol

### Dyddiad Nesaf

10.	Cadarnhodd ZP dyddiad y cyfarfod LAG nesaf sef y 16eg o Hydref. Lleoliad i'w gadarnhau.	
-----	---	--

